# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Ebrill 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 273(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu:

- Y cworwm i unrhyw bleidlais fod yn ddilys fydd pedwar Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.10;
- Yn unol â Rheol Sefydlog 34.11, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, aelodau'r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth;
- Datgymhwysir gofynion Rheol Sefydlog 12.56 ynghylch cwestiynau llafar, yn unol â Rheol Sefydlog 34.18.

**Mae'r Llywydd hefyd yn rhoi rhybudd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(5 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19)

(30 munud)

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ymateb i'r Coronafeirws (Covid-19)

(30 munud)

## Cynnig o dan Reolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd a'u bod yn destun un bleidlais (60 munud)

## 4 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

**NDM7307** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Gosodwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 18 Tachwedd 2019;

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 13 Mawrth 2020.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 5 Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

**NDM7308** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

## 6 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Ebrill 2020

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (5 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19) (30 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Ebrill 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (5 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19) (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (Covid-19) (30 munud)

**Dydd Mercher 6 Mai 2020**

**Busnes y Llywodraeth**

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (5 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19) (30 munud)